**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (HWLFFORDD I ABERGWAUN, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Hwlffordd ac Abergwaun, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40mya neu 10mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o gefnffordd yr A40 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder o 10mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o gefnffordd yr A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 19 Rhagfyr 2024. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 00:01 o'r gloch ar 19 Rhagfyr 2024 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Llwynhelyg, Hwlffordd hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r C3161 Hayscastle Road, Cas-blaidd.

**THE A40 TRUNK ROAD (HAVERFORDWEST TO FISHGUARD, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Haverfordwest and Fishguard, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose either a 40mph or 10mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A40 trunk road described in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 10mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A40 trunk road described in Schedule 2.

The 10mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 19 December 2024. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate intermittently from 00:01 hours on 19 December 2024 for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the trunk road that extends from a point 103 metres north of its junction with Withybush Road Roundabout, Haverfordwest to a point 106 metres south of its junction with the C3161 Hayscastle Road, Wolfscastle.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 996 o fetrau i’r gogledd o’i chyffordd â’r C3161 Hayscastle Road, Cas-blaidd hyd at bwynt 233 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4331 St David’s Road, Treletert.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 618 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4331 St David’s Road, Treletert hyd at bwynt 40 metr i’r de o ganolbwynt Cylchfan Rafael, Abergwaun.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â Chylchfan Rafael, Abergwaun hyd at bwynt 521 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r gylchfan honno.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â Chylchfan Ffordd Llwynhelyg, Hwlffordd hyd at bwynt 103 o fetrau i’r gogledd o'i chyffordd â’r gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 106 o fetrau i’r de o’i chyffordd â’r C3161 Hayscastle Road, Cas-blaidd hyd at bwynt 36 o fetrau i’r gogledd o’r gyffordd ym Mryn Gomer.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 233 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4331 St David’s Road, Treletert hyd at bwynt 217 o fetrau i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd honno.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 40 metr i’r de o ganolbwynt Cylchfan Rafael hyd at ei chyffordd â Chylchfan y Parrog, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Rafael, Windyhill a’r Parrog, Abergwaun.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 521 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â Chylchfan Rafael, Abergwaun hyd at bwynt 996 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r gylchfan honno.

The length of the trunk road that extends from a point 996 metres north of its junction with the C3161 Hayscastle Road, Wolfscastle to a point 233 metres south-east of the centre of its junction with the B4331 St David’s Road, Letterston.

The length of the trunk road that extends from a point 618 metres north-west of the centre of its junction with the B4331 St David’s Road, Letterson to a point 40 metres south of the centre-point of Rafael Roundabout, Fishguard.

The length of the trunk road that extends from a point 37 metres north-east of its junction with Rafael Roundabout, Fishguard to a point 521 metres north-east of its junction with that roundabout.

## SCHEDULE 2
## Temporary 10 mph speed limit and no overtaking

The length of the trunk road that extends from its junction with Withybush Road Roundabout, Haverfordwest to a point 103 metres north of its junction with that roundabout, including its circulatory carriageway.

The length of the trunk road that extends from a point 106 metres south of its junction with the C3161 Hayscastle Road, Wolfscastle to a point 36 metres north of the junction at Bryn Gomer.

The length of the trunk road that extends from a point 233 metres south-east of the centre of its junction with the B4331 St David’s Road, Letterston to a point 217 metres north-west of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 40 metres south of the centre-point of Rafael Roundabout to its junction with The Parrog Roundabout, including the circulatory carriageways of Rafael, Windyhall and The Parrog Roundabouts, Fishguard.

The length of the trunk road that extends from a point 521 metres north-east of its junction with Rafael Roundabout, Fishguard to a point 996 metres north-east of its junction with that roundabout.